# MEDDYGFA PARC GLAS

## MEDDYGFA LLANFAELOG & MEDDYGFA GAERWEN

## Oriau Agored

Fel rhan o drafodaethau contract y GMS ar gyfer 2023/2024, mae Llywodraeth Cymru a GPC Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol I gleifion fedru cysylltu a phrif safle eu meddygfa rhwng yr oriau 8yb-6.30yh dros y ffon, a 8.30yb-6.00yh mewn person.

Ar hyn o bryd, mae'n prif safle-Parc Glas, yn cau am 5yh ar ddyddiau Llun a Gwener, ac mae ein dwy safle arall, Gaerwen a Llanfaelog ar agor tan 6.30yh.

Yn unol a gofynion newydd y Llywodraeth, ac er mwyn i Parc Glas fod yn agored tan 6.30yh bob dydd, yna mae'n rhaid gwneud man newidiadau i'n oriau agor yn y ddwy gangen.

O Gorffennaf y 3ydd 2023, mi fyddwn yn gweithredu y newidiadau canlynol:

Mi fydd Gaerwen ar agor ar foreau dydd Gwener yn hytrach na phrynhawniau Gwener.

Ni fydd Meddygfa Maelog ar agor ar brynhawn dydd Llun, ond mi fydd dal yn agored yn y boreau. Mi fydd yna feddyg teulu a nyrs ar gael ym Mharc Glas yn ystod yr amser yma.

Mi fydd yna sesiynnau ychwanegol gan feddyg teulu ar brynhawniau Llun a Gwener ym Mharc Glas.

Rydym yn gwerthfawrogi y gall rhai o'r newidiadau yma beri gofid i rai o'n cleifion, ond hoffwn eich sicrhau na fydd yna leihad yn nifer o apwyntiadau sydd ar gael, ac ni fydd yna newid i'r drefn bresennol o wneud apwyntiad.

Mi fyddwn yn parhau i gynnig mynediad rhwydd i'n apwyntiadau- archebu o flaen llaw, neu ar y diwrnod drwy ffonio, yn ogystal a'r gallu i wneud apwyntiad ar-lein.

Mae y newid ym Mronllys, Gaerwen o'r prynhawn i'r bore un mynd i alluogi i bobl heb drafnidiaeth gael eu gweld yn gynharach yn y diwrnod.

Nid oes newid i oriau agor Llanfaelog o ddydd Mawrth i ddydd Gwener.

Mae cau ar brynhawniau llun yn golygu un sesiwn yn llai yn y gangen, ond mae'r sesiwn yn awedi ei symud i Parc Glas, sy'n sicrhau fod yna Feddyg a nyrs ar gael ar gyfer yr un nifer o apwyntiadau.

Mae'r sesiwn o apwyntiadau nyrsio o'r prynhawn dydd Llun yn symud i'r bore Mawrth, felly ni fydd newid yn nifer yr apwyntiadau sydd ar gael.

Mi fydd Meddygfa Maelog yn dal ar agor am un sesiwn bob diwrnod o ddydd Llun I Ddydd Gwener gyda meddyg teulu ar gael.

Mae'r feddygfa yn ymrwymiedig i ddarparu gofal o'r safon uchaf i'n cleifion, a credwn y bydd y newidiadau yma yn ein galluogi i neud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddom i gyrraedd y safon yma.

Os oes ganddoch unrhyw ofidiau, neu gwestiynnau, anfonnwch nhw dros ebost- enquiries.W94006@wales.nhs.uk , neu ffoniwch y feddygfa ar 01407 840294 i siarad ag aelod o staff.

## Surgery Opening Times/Feddygfa Oriau Agored

### Meddygfa Parc Glas Surgery

**Reception/*Derbynfa***

Monday to Friday / *Dydd Llun i Dydd Gwener* 8.00-18.30

**Dispensary/*Fferyllfa***

8.30–18.00

### Meddygfa Maelog Surgery

**Reception & Dispensary/*Derbynfa a Fferyllfa***

Monday, Tuesday & Thursday / *Dydd Llun, Dydd Mawrth & Dydd Iau* 8.30-12.30

Wednesday & Friday / *Dydd Mercher & Dydd Gwener* 14.30-18.30

### Meddygfa Bronllys Surgery

**Reception & Dispensary/*Derbynfa a Fferyllfa***

Monday / *Dydd Llun* 14.30-18.30

Wednesday & Friday / *Dydd Gwener* 9.00-12.30